**Grŵp Menter, Cysylltedd ac Ynni**
**Enterprise, Connectivity and Energy Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

14 Awst 2026

Annwyl ,

**Cwyn mewn perthynas â ATISN 27047 - Pont Y Borth (Pont Menai)**

Diolch am eich e-bost dyddiedig 22 Gorffennaf yn gofyn inni gynnal Adolygiad Mewnol o'n hymateb i'ch cwestiwn ynghylch gwariant ar atgyweiriadau i Pont Y Borth (Pont Menai) ers i'r atgyweiriadau ddechrau ar ddiwedd 2022.

Wrth ystyried ac adolygu eich cwyn, rwyf wedi nodi eich cais gwreiddiol, yr ymateb a gyhoeddwyd a'ch cwyn ddilynol.

**Mae'r adolygiad mewnol yn dod i'r casgliad canlynol:**

Rwyf wedi adolygu'r modd yr ymdriniwyd â'r rhan hon o'r cais, gan gynnwys a oedd yr ymateb yn cadarnhau'n glir a yw Llywodraeth Cymru yn dal yr wybodaeth y gofynnwyd amdani.

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, lle bo hynny'n berthnasol, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gadarnhau a ydynt yn dal yr wybodaeth y gofynnwyd amdani. Rwy'n cydnabod nad oedd yr ymateb gwreiddiol yn gwneud hyn yn ddigon clir mewn perthynas â Phwynt 6.

Ar ôl adolygu'r wybodaeth a ddelir, gallaf gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru yn dal yr wybodaeth ariannol benodol y gofynnwyd amdani ym Mhwynt 6. UK Highways A55 Ltd sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ac atgyweirio'r A55, gan gynnwys croesfannau'r Fenai, o dan delerau'r contract Dylunio, Adeiladu, Ariannu a Gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud taliadau contractiol rheolaidd o dan y trefniant hwnnw, ond nid yw UK Highways A55 Ltd wedi darparu costau ar wahân i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith atgyweirio Pont y Borth (Pont Menai), ac oherwydd nad yw'r costau'n ychwanegol ond yn rhan o'r gwaith cyflawni contract cyffredinol a gytunwyd cyn y dyddiadau dan sylw, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y ffigurau hynny nac wedi'u derbyn, gyda'r gost yn cael ei hysgwyddo gan y contractwr.

Mae'r adolygiad wedi cadarnhau bod UK Highways A55 Ltd yn gwmni preifat ac nad yw'n ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Rwyf hefyd wedi ystyried

E-Bost/E-Mail: Duncan.Hamer@gov.wales

Ladywell House
Y Dre Newydd/Newtown
SY16 1JB

a allai'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ddod o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, gan y gall cynnal a chadw ffyrdd ymwneud â gwybodaeth amgylcheddol. Mater i'r cwmni fyddai ystyried a oes ganddo rwymedigaeth i ymateb i geisiadau am wybodaeth o'r fath o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Fodd bynnag, am y rhesymau a nodwyd, yn yr achos hwn nid yw Llywodraeth Cymru yn dal yr wybodaeth ariannol benodol y gofynnwyd amdani. Nid yw UK Highways A55 Ltd wedi cyflwyno costau ar wahân i Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith hwn, ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y ffigurau hynny nac wedi'u derbyn.

Gan nad yw Llywodraeth Cymru yn dal yr wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gyfer Pwynt 6, rwy'n cadarnhau'r ymateb gwreiddiol.

Os ydych yn parhau'n anfodlon â'r ateb hwn, mae gennych hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd GwybodaethWycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Yn gywir

Duncan Hamer
Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Cysylltedd

E-Bost/E-Mail: Duncan.Hamer@gov.wales

Ladywell House
Y Dre Newydd/Newtown
SY16 1JB

**Grŵp Menter, Cysylltedd ac Ynni**
**Enterprise, Connectivity and Energy Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Lloyd Griffiths
elin.lloyd@s4c.cymru

14 August 2026

Dear Elin Lloyd Griffiths

**Complaint in respect of ATISN 27047 - Menai Suspension Bridge**

Thank you for your email of 22 July asking us to conduct an Internal Review into our response to your question on the expenditure regarding repairs to the Menai Suspension Bridge since repairs commenced at the end of 2022.

In considering and reviewing your complaint, I have noted your original request, the response that issued and your subsequent complaint.

**The internal review concludes that:**

I have reviewed the handling of this part of the request, including whether the response clearly confirmed whether the Welsh Government holds the information requested.

Under both the Freedom of Information Act 2000 and the Environmental Information Regulations 2004, where applicable, public authorities are required to confirm whether they hold the information requested. I acknowledge that the original response did not make this sufficiently clear in relation to Point 6.

Having reviewed the information held, I can confirm that the Welsh Government does not hold the specific financial information requested at Point 6. UK Highways A55 Ltd is responsible for the maintenance and repair of the A55, including the Menai crossings, under the terms of the Design, Build, Finance and Operate contract. The Welsh Government makes regular contractual payments under that arrangement, but UK Highways A55 Ltd has not provided separate costs to the Welsh Government for the Pont y Borth/Menai Bridge repair works, and as the costs are not additional, but part of the overall contract delivery agreed prior to the dates in question, the Welsh Government has not requested or received those figures with cost borne by the contractor.

The review has confirmed that UK Highways A55 Ltd is a private company and is not subject to the Freedom of Information Act 2000. I have also considered whether the information requested may fall within the Environmental Information Regulations 2004 (EIRs), given that road maintenance may relate to environmental information. It

E-Bost/E-Mail: Duncan.Hamer@gov.wales

Ladywell House
Y Dre Newydd/Newtown
SY16 1JB

would be for the company to consider whether they are obliged to respond to requests for such information under the EIRs.

However, for the reasons set out, in this case the Welsh Government does not hold the specific financial information requested. UK Highways A55 Ltd has not submitted separate costs to the Welsh Government for these works, and the Welsh Government has not requested or received those figures.

As the Welsh Government does not hold the information requested for Point 6, I uphold the original response.

If you remain dissatisfied with this response you have the right to complain to the Information Commissioner. The Information Commissioner can be contacted at:

Information Commissioner's Office,

Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF.

Yours sincerely

Duncan Hamer
Director, Transport & Connectivity

E-Bost/E-Mail: Duncan.Hamer@gov.wales

Ladywell House
Y Dre Newydd/Newtown
SY16 1JB